

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### BIL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDAU A PHLISMONA

#### DARPARIAETHAU SY'N YMWNEUD Â GWAHARDDEBAU I ATAL NIWSANS AC ATAL TARFU AR BERSONAU, GORCHMYNION YMDDYGIAD TROSEDDOL A'R TROTHWY CYMUNEDOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Mai 2013. Gellir gweld y Bil yn: [Bill Documents - Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill 2013-14 – UK Parliament Website](#)

#### Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw creu pwerau newydd a symlach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, annog perchenogion cŵn i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol, mynd i'r afael â'r defnydd o arfau tanio anghyfreithlon gan gangiau a grwpiau troseddu cyfundrefnol, gwneud priodasau dan orfod yn anghyfreithlon a gwella safonau proffesiynol yr heddlu.
4. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cywasgu'r 19 o orchmynion presennol i chwe gorchmyn newydd i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; mae'n rhoi'r gallu i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol sicrhau y cymerir camau; mae'n cyflwyno proses orfodol ar gyfer adfeddiannu tenantiaethau diogel lle bydd y tenant yn mynd yn groes i un o'r gorchmynion newydd; mae'n diwygio Deddf Cŵn Peryglus 1991 i ehangu ei darpariaethau i eiddo preifat; mae'n cynyddu'r uchafswm dirwy ar gyfer mewnfario ac allfario arfau tanio; mae'n creu trosedd newydd ar gyfer meddiannu arfau tanio i'w gwerthu neu eu trosglwyddo; mae'n gwneud priodasau dan orfod yn anghyfreithlon; mae'n creu Coleg Plisma newydd, ac mae hefyd yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â'r rheolaethau ariannol ar brif gwnstablaid ac ehangu pwerau a chylch gorchwyl Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

#### Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

#### Rhan 1 - Gwaharddebau

5. Mae'r waharddeb i atal niwsans ac atal tarfu ar bersonau yn waharddeb sifil sydd ar gael yn y llys sirol ar gyfer oedolion ac yn y llys ieuenctid i'r rheini o dan 18 oed. Mae'r waharddeb yn disodli amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd gan gynnwys y gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol ("ASBO") ar gais, y waharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol ("ASBI"), y gorchymyn gwahardd yfed ar gais, gorchymynion ymyrryd a gorchymynion cymorth unigol.
6. Gellir gwneud gwaharddeb yn erbyn unigolyn 10 oed neu drosodd os bydd y llys yn fodlon, yn ôl yr hyn sy'n debygol (y safon prawf sifil), bod yr unigolyn wedi cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu ei fod yn bygwth cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath, a'i fod yn gyfiawn ac yn gyfleus dyfarnu'r waharddeb. Mae hyn yn unol â'r ASBI presennol, a ddefnyddir gan ddarparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat ac awdurdodau lleol (mewn perthynas â'u swyddogaethau rheoli tai) i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.
7. Bydd gwaharddeb ar gael i nifer o gyrff cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol, darparwyr tai, Asiantaeth yr Amgylchedd, Gweinidogion Cymru (sy'n arfer swyddogaethau sy'n cyfateb i swyddogaethau rheoli diogelwch a gaiff eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 195(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006) neu Awdurdod Iechyd Arbennig (sy'n gweithredu yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru) er mwyn atal ac ymdrin ag ymddygiad sy'n achosi niwsans neu flinder i unrhyw unigolyn.
8. Gellir defnyddio'r waharddeb i fynd i'r afael ag amrywiaeth o broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er enghraifft, mae unigolyn yn loetran yn rheolaidd y tu mewn i ardaloedd aros mewn ysbyty lleol. Mae bob amser yn feddw ac yn ymosodgar i staff yr ysbyty, gan ganiatáu'n aml i'w gi neidio at staff ac eraill mewn ffordd heb ei rheoli. O dan y system newydd, yng Nghymru, gallai Gweinidogion Cymru, neu Awdurdod Iechyd Arbennig (megis Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) gan weithredu yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru, wneud cais am waharddeb i atal ymddygiad yr unigolyn.
9. Gallai'r waharddeb gynnwys gwaharddiadau sy'n helpu i atal unrhyw achosion o niwsans neu o darfu ar bersonau yn y dyfodol. Gall gwaharddiadau o'r fath gynnwys, er enghraifft, peidio â meddu ar gan o baent chwistrell mewn man cyhoeddus, peidio â mynd i ardal benodol, neu beidio â bod yn feddw mewn man cyhoeddus. Gallai'r waharddeb hefyd gynnwys gofynion cadarnhaol i annog yr unigolyn i ymdrin ag achos sylfaenol unrhyw ymddygiad. Gallai hyn gynnwys gofyniad i fynd i ddsbarthiadau hyfforddi cŵn er mwyn ymdrin â'r problemau o ran rheoli'r ci a deall anghenion lles y ci yn well.
10. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â pharagraff 1 (iechyd a lles anifeiliaid), paragraff 6 (diogelu'r amgylchedd, gan

gynnwys llygredd, niwsans; atal, lleihau, casglu, rheoli, trin a gwaredu gwastraff), paragraff 9 (hybu iechyd, atal anafiadau a darparu gwasanaethau iechyd), paragraff 11 (tai), paragraff 12 (pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol) a pharagraff 15 (lles cymdeithasol a diogelwch a lles plant ac oedolion ifanc).

## **Rhan 2 - Gorchymynion Ymddygiad Troseddol (CBO)**

11. Bydd y gorchymyn ymddygiad troseddol ("CBO") yn orchymyn yn dilyn collfarn, a fydd ar gael yn dilyn collfarn ar gyfer unrhyw drosedd yn Llys y Goron, llys ynadon neu lys ieuenctid. Byddai'n disodli'r ASBO yn dilyn collfarn a'r gorchymyn gwahardd yfed yn dilyn collfarn. Dim ond os bydd yr erlynydd yn gwneud cais am orchymyn o'r fath y bydd llys yn gallu gwneud gorchymyn ymddygiad troseddol yn erbyn troseddwr. Fel arfer, yr heddlu neu'r awdurdod lleol fyddai'n cychwyn y broses hon. Yn wahanol i'r broses bresennol, byddai awdurdodau lleol yn gallu gwneud cais yn uniongyrchol i'r erlyniad heb ofyn am ganiatâd gan yr heddlu.
12. Gellir gwneud gorchymyn yn erbyn unigolyn dros 10 oed os bydd y llys yn fodlon bod y troseddwr wedi cymryd rhan mewn ymddygiad a achosodd neu a oedd yn debygol o achosi aflonyddwch, ofn neu ofid i un unigolyn neu fwy nad oedd o'r un cartref â'r troseddwr a bod y llys o'r farn y bydd gwneud y gorchymyn yn helpu i atal y troseddwr rhag cymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath. Gan mai yn dilyn collfarn y câi'r gorchymyn ei wneud, safon y prawf fyddai "y tu hwnt i amheuaeth resymol".
13. Yn yr un modd â'r Waharddeb o dan Ran 1 o'r Bil, gallai'r gorchymyn gynnwys gwaharddiadau a/neu ofynion cadarnhaol sy'n helpu i atal y troseddwr rhag cymryd rhan mewn ymddygiad a allai achosi aflonyddwch, ofn a gofid yn y dyfodol. Gallai gwaharddiadau o'r fath gynnwys peidio â meddu ar gan o baent chwistrell mewn man cyhoeddus, peidio â mynd i ardal benodol, neu beidio â bod yn feddw mewn man cyhoeddus.
14. Mae enghraifft bosibl o ofyniad cadarnhaol y gellid ei gynnwys mewn CBO yn cynnwys mynd ar gwrs i ymdrin ag achosion sylfaenol yr ymddygiad a arweiniodd at y CBO. Lle mae CBO yn cynnwys gofyniad cadarnhaol, rhaid i'r llys hefyd ddynodi unigolyn i fod yn gyfrifol am oruchwyllo cydymffurfiad â'r gofyniad. Mae enghreifftiau posibl yn cynnwys awdurdod lleol, darparwyr gwasanaethau adsefydlu cydnabyddedig mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau neu ddarparwyr hyfforddiant cŵn ar gyfer perchenogion cŵn anghyfrifol. Cyn cynnwys gofyniad yn y gorchymyn, rhaid i'r llys gael tystiolaeth am addasrwydd y gofyniad a'r gallu i'w orfodi gan yr unigolyn neu'r corff a ddynodir i oruchwyllo cydymffurfiad.
15. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â pharagraff 1 (iechyd a lles anifeiliaid), paragraff 9 (hybu iechyd ac atal anafiadau), paragraff 12 (pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u

swyddogion) a pharagraff 15 (lles cymdeithasol a diogelwch a lles plant ac oedolion ifanc).

## **Rhan 6 - y Trothwy Cymunedol**

16. Mae'r trothwy cymunedol yn ffordd y gall unigolion sy'n dioddef ymddygiad parhaus sy'n achosi aflonyddwch, ofn neu bryder wneud cais i'r cyrff perthnasol gynnal adolygiad achos. Byddai adolygiad achos yn golygu y byddai'r cyrff perthnasol yn rhannu gwybodaeth am yr achos, yn trafod pa gamau a gymerwyd yn flaenorol, a chyda'i gilydd, yn penderfynu p'un a ellid cymryd unrhyw gamau pellach. Mae cyrff perthnasol yn cynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, darparwyr ieuchyd a darparwyr tai cymdeithasol. Gall unrhyw unigolyn, cymuned neu fusnes wneud cais am adolygiad achos, a rhaid i'r cyrff perthnasol gynnal adolygiad achos os bodlonir y trothwy.
17. Caiff y trothwy ei bennu gan y cyrff perthnasol a gallai, er enghraifft, fod yn dri adroddiad o ddigwyddiadau o ymddygiad o'r fath ar wahân o fewn cyfnod o chwe mis, lle na fu ymateb digonol i'r ymddygiad hwnnw. Gellir pennu'r trothwy hefyd gan gyfeirio at natur barhaus yr ymddygiad, y potensial o niwed i'r dioddefwr, a digonolrwydd yr ymateb gan asiantaethau. Ni ddylid pennu'r trothwy yn uwch na thri chwyn, ond gall asiantaethau ddewis pennu trothwy is. Bwriedir i'r trothwy cymunedol weithredu fel rhwyd ddiogelwch wrth gefn i ddioddefwyr sydd o'r farn na fu ymateb priodol i'w cwynion.
18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â pharagraff 12 (pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion).
19. Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru. Nid yw Rhannau 1, 2 a 6 o'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.

## **Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

20. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru oherwydd bydd y Bil yn sicrhau bod dull gweithredu cyson ar waith i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru a Lloegr.
21. Yn ogystal, er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cynigion sylweddol y cyfeirir atynt yn y memorandwm hwn o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, derbynnir na fydd rhai o'r darpariaethau y bydd angen eu cyflwyno er mwyn gweithredu'r polisi sy'n sail i'r cynigion hyn yn llawn o bosibl o fewn y cymhwysedd hwnnw, ac o ganlyniad mai un o

fanteision defnyddio'r Bil yw y gellir cynnwys yr holl ddarpariaethau o fewn un Ddeddf gydlynus.

### **Goblygiadau ariannol**

22. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r cynigion yn y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma. Gall fod costau cysylltiedig i awdurdodau lleol ond mae'r cynigion hyn yn disodli darpariaeth sy'n bodoli eisoes - felly mae arian ar gael ar hyn o bryd ac ni ddylai fod unrhyw faich ychwanegol. At hynny, mae'r Swyddfa Gartref yn rhagweld y bydd arbedion cost yn gysylltiedig â'r cynigion newydd er nad yw'n bosibl meintoli'r arbedion hynny ar hyn o bryd.

**Lesley Griffiths AC**

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**

**Mai 2013**